Arthur Rowlands: 1922-

“Mi ydw i wedi maddau iddo”

Maddeuant / dewrder

“...Mi ydw i’n mynd i dy ladd di.”

“Paid â bod yn wirion. Pwy wyt ti? Be wyt ti’n ei wneud yn fan ‘ma? Be ydi dy enw di?”

Sylwodd y plismon, Arthur Rowlands, yng ngolau’i fflachlamp, fod gwn dwbl-baril wedi’i lifio yn anelu’n syth tuag ato.

Atebodd y dyn, “Robert Boyden”, neu eiriau tebyg. Taniodd y gwn. Teimlodd y plismon fel petai rhywun wedi taflu rhawiad o dân i’w wyneb. Roedd o’n llosgi. Syrthiodd ar ei liniau. “Dyma’r diwedd,” meddai wrtho’i hun ac yna clywodd leisiau o’i gwmpas. Roedd y postmon lleol wedi cael ei godi o’i wely gan sŵn yr ergyd ac roedd yr heddwas oedd efo Arthur Rowlands wedi cyrraedd. Pan gyrhaeddon nhw Arthur, roedd gwaed ar ei wyneb, ei helmed ar lawr a’i fflachlamp yn dal ynghynn. Erbyn 4:15 y bore roedd wedi cyrraedd Ysbyty Cyffredinol Aberystwyth. Yn ôl y meddygon, roedd wedi ei anafu’n ddifrifol iawn; roedden nhw’n sicr y byddai’n ddall. Yn wir doedden nhw ddim yn sicr y byddai byw. Cafodd drallwysiad gwaed. Bu’n anymwybodol am oriau. Cyrhaeddodd ei wraig, Olwen. Cafodd fynd i’w weld. Er na allai hi weld fawr ddim ohono gan fod bandeisi dros ei wyneb, cododd ei chalon pan glywodd y nyrs yn dweud fod ei byls wedi cryfhau wrth iddi siarad efo fo. Cyn diwedd y pnawn hwnnw roedd wedi ei symud i ysbyty arall yng Nghas-gwent. Y bore wedyn cafodd lawdriniaeth i geisio adfer ei wyneb. Ond er yr holl ymdrechion, neges y llawfeddyg, Emlyn Lewis, oedd,

“Mae’n arw gen i, Arthur. Weli di byth mwy. Y gwn yna ddaru dy saethu di oedd y peth ola weli di.”

I Arthur Rowlands y geiriau yma oedd yn troi a throi yn ei ben, “Weli di byth mwy...” Dechreuodd ei byls wanio unwaith eto. Daeth ei frawd a’i frawd-yng-nghyfraith i’w weld. Rywsut roedd rhaid gwneud rhywbeth i geisio edrych ymlaen i’r dyfodol. Dechreuodd feddwl am ei wraig a’i ddau blentyn, Carol a Gareth. Dyma ddechrau’r daith yn ôl.

Ar Bont ar Ddyfi y noson honno, Awst 1, 1961, wynebodd Arthur Rowlands y gwallgofddyn a’i saethodd. Roedd yr ardal i

gyd yn ferw gwyllt, roedd yn rhaid dal y dihiryn. Bu heddluoedd o sawl ardal yn chwilio amdano. Roedd ganddyn nhw enw, Robert Boyden, neu enw tebyg. Ymhen wythnos roedd Boynton, dyna'r enw cywir, yn Swyddfa'r Heddlu ym Machynlleth yn cael ei holi, diolch i'r gath!

Tua phump o'r gloch fore Llun, Awst 7, cododd Robert Jones o Aberllefenni i ollwng y gath oedd yn swnian yn y tŷ. Clywodd Llywela'r ferch sŵn ei thad a chododd i'r ffenestr. Gwelodd ddyn yn yr ardd yn bwyta pys. Rhedodd Robert Jones allan a galw'r cymdogion. Galwyd yr heddlu. Cyn pen dim, roedd plismyn a chŵn wedi cyrraedd. Llwyddodd y ci Derry i godi'r trywydd. Roedd y fagl yn cau amdano. Roedd Derry ar ei sodlau. Cododd Boynton ei wn a saethu'r ci yn ddrwg iawn. Ceisiodd saethu at yr heddweision. Syrthiodd a dyna pryd yr hyrddiodd yr heddwas arno a chael cymorth un o'r cyhoedd i afael yn dynn ynddo.

Anodd iawn yn ystod y mis cyntaf wedi'r digwyddiad oedd maddau i'r gwallgofddyn yna. Ond, erbyn hyn mae Arthur Rowlands wedi maddau'n llwyr i'r dihiryn. Yng ngeiriau'r cyn-blismon, "Os oes gan rywun le i ddiolch y fi ydi hwnnw."

"O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud."

Luc 23:34

O Dad,
mi fydda i'n meddwl weithiau bod maddau i rywun yn dangos yn glir mai person gwan ydw i.
Onid gwrthod maddau i rywun sy'n dangos fy mod yn berson cryf a chadarn?
Ac eto, maddau i'w elynion wnaeth Iesu Grist.
Helpa fi i ddod i benderfyniad pa ffordd sy'n iawn.
Amen.

Pa mor hawdd ydi maddau?
Fuasech chi yn gallu maddau i rywun am wneud drwg i chi neu'ch teulu?

Arthur Rowlands: 1922-